

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad i:	Cyngor
Dyddiadau:	24/09/2026
Pwnc:	Newid y Cyfansoddiad - Egluro Geiriad Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Aelod(au) Portffolio:	Y Cynghorydd Robin Williams
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad:	Lisa Lord - Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro Dros Dro
Aelodau Lleol:	Pob un

A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

Argymhellion

Pwyllgor Gwaith (Penderfyniad a Ddirprwywyd)

Bod y Pwyllgor Gwaith yn cyflwyno sylwadau ar y newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn newid y cyfnod a ganiateir i aelodau lleyg wasanaethu ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Y Cyngor

Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn newid y cyfnod a ganiateir i aelodau lleyg wasanaethu ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Rhesymau

- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi adolygu ei gylch gorchwyl, i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfau a rheoliadau perthnasol.
- Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys y cyfnod penodi ar gyfer aelodau lleyg. Er mwyn cydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a'r canllawiau statudol argymhellir bod y cylch gorchwyl yn cael ei ddiwygio er mwyn egluro'r sefyllfa'n gysylltiedig ag aelodau a benodir ynghanol tymor y cyngor.
- Yn erbyn y cefndir hwn, gofynnir am ddiwygio paragraff 3.4.8.2.2 o'r Cyfansoddiad:

“Bydd y Pwyllgor yn cynnwys traean o aelodau lleyg; wyth aelod etholedig a phedwar aelod lleyg, fydd yn cael eu recriwtio trwy ymarfer recriwtio cyhoeddus. Bydd cydbwysedd gwleidyddol o ran yr aelodau etholedig ac ni fyddant yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, ond mae'n ofynnol i'r Aelod Portffolio Cyllid, i'r graddau y mae hyn yn bosibl, fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor. Mae'n rhaid i'r Cadeirydd fod

yn aelod lleyg ac ni fydd yr Is-gadeirydd yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith na'n gynorthwyydd i'r Pwyllgor Gwaith. ~~"Bydd yr aelodau lleyg yn gwasanaethu am gyfnod penodol i gyd-fynd â hyd tymor y Cyngor, h.y. pum mlynedd, a byddant yn gwasanaethu am ddau dymor ar y mwyaf."~~ Bydd aelodau lleyg yn cael eu penodi'n awtomatig am ddau dymor pum mlynedd yn ddilynol. Mae Cod Ymddygiad y Cyngor yn berthnasol i'r holl aelodau, gan gynnwys yr aelodau lleyg, a byddant yn datgan unrhyw fuddiannau. Bydd gan yr aelodau lleyg statws cyfartal â'r aelodau etholedig o ran mynediad i staff a gwybodaeth, at ddibenion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio."

- Mae'r newid hwn yn cadarnhau'r sefyllfa'n gysylltiedig ag aelodau a benodir ynghanol tymor y cyngor a bydd yn sicrhau bod yr aelodau lleyg yn cael gwasanaethu am yr uchafswm a ganiateir yn unol â'r Canllawiau Statudol.
- Bydd y newid hwn yn helpu i sicrhau bod gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddigon o aelodau lleyg i gydymffurfio â'r gofynion statudol yn gysylltiedig â chyfansoddiad y Pwyllgor ac fe ddylai arbed costau recriwtio rhyw fymryn drwy fanteisio i'r eithaf ar benodiadau, hyfforddiant, profiad a chyfraniad. Mae'r trefniant hwn eisoes yn berthnasol i aelodau lleyg sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.

B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Dim Newid. Gwrthodwyd hyn oherwydd yr amwysedd ac anghysondeb presennol ynglŷn â chyfnodau gwasanaethu aelodau lleyg a benodir ynghanol tymor y cyngor.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Nid yw hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith, a bydd y penderfyniad yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn. Fodd bynnag, o dan baragraff 2.15.2.1 o'r Cyfansoddiad, mae'n ofynnol rhoi cyfle i'r Pwyllgor Gwaith gyflwyno sylwadau ar unrhyw newidiadau y bwriedir eu gwneud i'r Cyfansoddiad.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'n rhaid i'r Cyngor llawn gymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad (nad ydynt yn ymwneud â 3.5.3.6.6. a 3.4.12.6.3)

D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Nid oes unrhyw effaith ar y gyllideb

Dd - Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hir dymor fel ynys?

Mae'r newid arfaethedig yn cefnogi gwneud penderfyniadau effeithlon er mwyn sicrhau bod gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddigon o aelodau lleyg.

2. A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?

Nid i raddau helaeth ond fe allai leihau costau'n gysylltiedig â recriwtio aelodau lleyg ynghyd â chostau hyfforddi gan y dylai'r aelodau wasanaethu am gyfnod hwy.

3. A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, gyda phwy?

Na

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.

Na

5. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Dim effaith

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

D/B

7. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dim effaith

E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori a beth oedd eu sylwadau?

1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol)	Wedi ystyried y mater ar 18/08/2026
2. Cyllid / Swyddog Adran 151	Aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth
3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Cyd-awdur yr adroddiad ac aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth
4. AD	D/B
5. Eiddo	D/B
6. TG	D/B

7. Caffael	D/B
8. Sgriwtini	D/B
9. Aelodau Lleol	Ymgynghorwyr â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 14/05/2026

F - Atodiadau

Ff- Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am fwy o wybodaeth)